CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cofnod o Benderfyniad gweithredol a wnaed gan yr Arweinydd

| | |
|---|---|
| **1. GWNAED GAN** | Cynghorydd C. McGregor |
| **2. Y PENDERFYNIAD** | Yn unol â Pharagraff 4.4.1.1.3 o Reolau Gweithdrefn Trefniadau Gweithredol ac yn amodol ar y gofynion cyfansoddiadol ynghlych eu cyhoeddi, yr wyf drwy hyn yn dirpwyo yr holl bwerau gweithredol ynghlych penodi i gyrff allanol, Cyrff Trefniadau ar y Cyd a Phwyllgorau ar y cyd, Cwmniau Llywodraeth Leol, Byrddau ar y Cyd ac Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd, i mi fy hun fel Arweinydd y Cyngor i osgoi amheuaeth, erys hyn mewn grym tan y cyntaf o'r digwyddiadau canlynol:-<br><br>-Cyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhelir yn 2011 neu 2012, neu<br>-fy mod i neu fy olynydd yn diwygio, yn altro neu'n diddymu'r penderfyniad hwn. |
| **3. GWNAED AR** | 13 Mai 2010 |
| **4. Y RHESYMAU AM Y PENDERFYNIAD** | (1) Cadw'r pwerau dirpwyo presennol fel y gellir delio yn gyflym gydag unrhyw newidiadau mewn penodiadau.<br><br>(2) I scrhau bod yr holl gyrff perthnasol yn cael eu cynnwys. |
| **5. DATGANIAD O DDIDDORDEB** | Dim |
| **6. CANIATAD ARBENNIG WEDI EI ROI?** | Dim yn berthnasol |
| **7. YMGYNGHORI, OS O GWBL** | Rheolwr-Gyfarwyddwr Dros Dro a Pennaeth Gwasanaeth Tâl Dynodedig,, Cyfarwyddwraig y Gwasanaethau Cyfreithiol/Swyddog Monitro. |
| **8. YN AGORED I GAEL EI ALW I MEWN?** | Ydyw |
| **DYDDIAD CYHOEDDI:** | 13 Mai 2010 |
| **DYDDIAD GWEITHREDU:** | 21 Mai,2010 |

CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cofnod o Benderfyniad gweithredol a wnaed gan yr Arweinydd

| | |
|---|---|
| **1. GWNAED GAN** | Cynghorydd C. McGregor |
| **2. Y PENDERFYNIAD** | Dirprwyo ynghylch Rheolau Gweithdrefn Contractau yn unol a'r geiriad atodol. |
| **3. GWNAED AR** | 13 Mai 2010 |
| **4. Y RHESYMAU AM Y PENDERFYNIAD** | Gwella effeithlonrwydd gweinyddol. |
| **5. DATGANIAD O DDIDDORDEB** | Dim |
| **6. CANIATAD ARBENNIG WEDI EI ROI?** | Dim yn berthnasol |
| **7. YMGYNGHORI, OS O GWBL** | Rheolwr-Gyfarwyddwr Gweithredol, Cyfarwyddwr Corfforaethol(Cyllid), Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Swyddog Monitro. |
| **8. YN AGORED I GAEL EI ALW I MEWN?** | Ydyw |
| **DYDDIAD CYHOEDDI:** | 13 Mai 2010 |
| **DYDDIAD GWEITHREDU:** | 21 Mai 2010 |

**DIRPRWYO GAN YR ARWEINYDD YNGHYLCH RHEOLAU GWEITHDREFN CONTRACTAU - 13 MAI 2010**

Rwy'n dirprwyo pob mater y mae angen penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith arno dan Rheolau Gweithdrefn Contractau i'r Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid a'r Aelod Portffolio perthnasol (fel sydd wedi ei ddiffinio isod), yn gweithredu ar y cyd, yn yr amgylchiadau isod :

(a) bod y penderfyniad yn cael ei wneud o fewn cyllideb a gymeradwywyd;
(b) bod y penderfyniad yn cael ei wneud gan Aelod Portffolio y mae ei gyfrifoldebau yn cynnwys y gweithgaredd y mae â wnelo'r gyllideb a fo;
(c) os mai'r Aelod Portffolio Cyllid ydi'r 'Aelod Portffolio Perthnasol' bydd y penderfyniad yn cael ei wneud ar y cyd gan yr Aelod Portffolio hwnnw a'r Arweinydd;
(ch) os bydd y 'Deilydd Portffolio perthnasol' yn ystyried na all fod yn rhan o wneud penderfyniad oherwydd gwrthdaro personol, gall yr Arweinydd neu Aelod Portffolio arall fydd wedi'i benodi gan yr Arweinydd gymryd ei le fel 'Aelod Portffolio perthnasol';
(d) bod y penderfyniad yn cael ei wneud ar ôl ystyried adroddiad ysgrifenedig gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pennaeth Gwasanaeth neu swyddog arall sy'n dal y gyllideb berthnasol a bod yr adroddiad yn gwneud argymhelliad ynghylch a ddylid gwneud taliad a faint y dylid ei dalu i'r corff, gyda rhesymau;
(dd) bod adroddiad y swyddog wedi bod yn destun ymgynghori ymlaen llaw gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cyllid a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol, a gall y swyddogion hynny hefyd gyhoeddi adroddiad ysgrifenedig ar y mater i'w ystyried gan yr Aelod Portffolio;
(e) yn unol â Rheol 4.2.15.1 y Cyfansoddiad, rhaid i 3 diwrnod clir fynd heibio rhwng dyddiad derbyn yr adroddiad a dyddiad gwneud y penderfyniad;
(f) yn unol â Rheol 4.2.15.2 y Cyfansoddiad, wrth roi adroddiad o'r fath i unigolyn sy'n gwneud penderfyniad, bydd y sawl a baratôdd yr adroddiad yn rhoi copi ohono i Gadeirydd pob Pwyllgor Sgriwtini perthnasol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, ac yn sicrhau ei fod ar gael yn gyhoeddus ar yr un pryd;
(ff) bydd rhaid cylchredeg adroddiadau'r swyddogion gyda'r cofnod o'r penderfyniad a'u rhoi ynghlwm wrtho. Lle mae adroddiadau'r swyddogion yn cynnwys gwybodaeth a fyddai'n gyfrinachol neu'n wybodaeth a fyddai'n cael ei heithrio, (dyna fyddai'n arferol ar gyfer penderfyniad o'r math yma), bydd angen PDC (Prawf Diddordeb Cyhoeddus) i'w benderfynu gan y sawl sy'n gwneud y penderfyniad yn rhoi gerbron y ffactorau oedd wedi eu hystyried a'r eithriad(au) a ddefnyddiwyd ac ni ddylid cynnwys yr adroddiadau hynny gydag unrhyw ran o'r cofnod o'r penderfyniadau sy'n agored i'r cyhoedd ei weld, ond bydd raid eu cynnwys ar wahân, wedi ei farcio'n glir fel eitem gyfrinachol, gyda'r copïau wedi eu cylchredeg i aelodau'r Cyngor. Bydd copi o'r PDC yn cael ei roi efo cofnod o'r penderfyniad;
(g) lle bo Aelod o'r Cyngor wedi rhoi gwybod i Swyddog neu Aelod Portffolio am ei ddiddordeb cyfreithlon mewn mater neu lle bo mater yn ymwneud â ward Aelod neu'n effeithio arni byddir yn ymgynghori gyda'r Aelod hwnnw cyn y gwneir penderfyniad terfynol a dan y pŵer dirprwyol hwn;
(ng) os yw aelod yn gwneud penderfyniad sy'n wahanol i argymhelliad y swyddog, bydd raid i'r aelod sicrhau fod y rhesymau am y penderfyniad hwn wedi eu cofnodi yn y cofnod o'r penderfyniadau;
(h) dygir sylw'r aelodau at baragraff 10(2)(b) o'r Côd Ymddygiad sydd yn y Cyfansoddiad mewn perthynas â phenderfyniadau sy'n cael effaith ar eu wardiau eu hunain yn arbennig;
(i) rhaid i'r ddau aelod wneud y penderfyniad ar y cyd; rhaid i'r ddau ei gymeradwyo. Oni fydd cytundeb, cyfeirir y mater i'r Arweinydd benderfynu arno, ac yn ei absenoldeb Dirprwy Arweinydd;
(l) os nad yw'r Arweinydd ar gael i wneud unrhyw benderfyniad ynglŷn â materion o fewn y dirprwyaeth hwn mae'r Dirprwy Arweinydd felly yn cael ei awdurdodi i wneud y penderfyniadau hynny;
(ll) oni bai y bydd yn cael ei ddiwygio neu ei dynnu'n ôl, mae'r dirprwyo hwn yn dod i ben yng nghyfarfod blynyddol nesaf y Cyngor Sir.

CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cofnod o Benderfyniad gweithredol a wnaed gan yr Arweinydd

| | |
|---|---|
| **1. GWNAED GAN** | Cynghorydd C. McGregor |
| **2. Y PENDERFYNIAD** | Dirprwyo ynghylch taliadau I gyrff gwirfoddol o dan Reolau Gweithdrefn Cyllidol ac yn unol a'r geiriad atodol. |
| **3. GWNAED AR** | 13 Mai 2010 |
| **4. Y RHESYMAU AM Y PENDERFYNIAD** | Gwella effeithlonrwydd gweinyddol. |
| **5. DATGANIAD O DDIDDORDEB** | Dim |
| **6. CANIATAD ARBENNIG WEDI EI ROI?** | Dim yn berthnasol |
| **7. YMGYNGHORI, OS O GWBL** | Rheolwr-Gyfarwyddwr Dros Dro Cyfarwyddwr Corfforaethol(Cyllid), Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Swyddog Monitro. |
| **8. YN AGORED I GAEL EI ALW I MEWN?** | Ydyw |
| **DYDDIAD CYHOEDDI:** | 13 Mai 2010 |
| **DYDDIAD GWEITHREDU:** | 21 Mai,2010 |